Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Dolybont
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy
# Dinas Mawddwy
# Gwynedd
# SY29 9LN

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2012**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2012**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Dolybont ei sefydlu oddeutu deugain mlynedd yn ôl i ddarparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i blant pentref Dinas Mawddwy a'r ardal wledig eang o'i gwmpas. Mae bellach wedi'i leoli mewn caban sydd ar dir yr ysgol gynradd. Mae'r lleoliad yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Ym marn y lleoliad nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr arolygiad.

Darperir sesiynau o dair awr am dri bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i bedair mlwydd oed, er bod y nifer y sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae pedwar plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan bron pob plentyn. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan ddwy ymarferydd llawn amser sydd wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod yn y lleoliad, bydd bron pob plentyn yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2010 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredinol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn annog plant i ddysgu'n effeithiol;
- cynlluniau trylwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd;
- pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol;
- ymarferwyr yn disgwyl llawer gan bob unigolyn;
- gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu hatgyfnerthu'n gyson, a
- pholisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y synnwyr cryf o ddiben a ddarperir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol;
- yr arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn gydwybodol ac yn effeithiol, a'r
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu i gynllunio gweithjgareddau ar gyfer y dyfodol:

A2 gynyddu'r adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A3 gryfhau'r cysylltiadau gyda'r ysgol gynradd a'r gymuned; a

A4 darparu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am gynaladwyedd ac ail-gylchu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gyd-gynllunio pwrpasol, llwydda'r ymarferwyr i ddarparu ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol sy'n annog cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol gyda'r holl blant yn cael eu herio gan weithgareddau perthnasol sy'n darparu dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r amrediad eang o brofiadau dysgu y tu mewn ac yn yr ardal y tu allan, yn darparu cyfleoedd cyson i blant ffurfio perthynas glos ag oedolion a phlant eraill ac i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd. Mae'r cyfleoedd dyddiol a gaiff plant i ddewis eu hunain pa weithgareddau sy'n denu eu diddordeb yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad fel dysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae cynlluniau trylwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd. Yn ystod gwaith grŵp neu sesiynau torfol, mae'r ymarferwyr yn annog plant i wrando'n astud ar eraill, i ofyn cwestiynau ac i siarad am faterion sydd o bwys iddynt hwy. Mae'r holl blant yn ddyddiol yn ymuno mewn rhigymau a chaneuon ac yn cael cyfleodd rheolaidd i ddilyn straeon sy'n cael eu darllen iddynt. Wrth chwarae yn yr ardaloedd dysgu dan do a thu allan, caiff plant eu hannog i arbrofi gyda gwneud marciau at amrywiaeth eang o ddibenion.

Mae'r holl blant yn mwynhau defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i wahanol ddibenion ond mae prinder offer yn cyfyngu amrediad eu profiadau dysgu.

Mae darpariaeth drylwyr iawn ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Caiff ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru ei ddatblygu mewn modd ystyrlon a diddorol iawn.

Trwy ddilyn themâu megis 'Plant y Byd' caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u rôl mewn cymdeithas ac yn y byd. Ni oes digon o gyfleoedd i blant ddysgu am bwysigrwydd cynaladwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan bob plentyn beth bynnag fo ei allu, ac yn sicrhau bod profiadau dysgu ysgogol a heriol ar gyfer pob un ohonynt. Trwy ddefnyddio ystod eang o strategaethau dysgu, llwyddant i sbarduno diddordeb ac i sicrhau ymglymiad yr holl blant i'w tasgau. Mae

pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol, ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai hynny a gaiff eu cyfeirio gan ymarferwyr. Mae'r arfer o ddilyn y plentyn yn sicrhau bod ymyrraeth oedolion yn nysgu'r plant yn amserol ac yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda tuag at symud dysgu yn ei flaen. Caiff unrhyw achosion o ymddygiad annerbyniol neu anghydfod rhwng unigolion eu datrys yn gadarn a sensitif gan ymarferwyr.

Mae’r lleoliad yn asesu plant yn rheolaidd ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau’n ofalus i fesur cynnydd plant. Er bod y lleoliad yn gwneud peth defnydd o ddeilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, nid yw'r arfer hwn wedi llawn ddatblygu. Mae’r cyswllt agos sydd gan ymarferwyr â’r rhieni yn sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o gynnydd eu plentyn a’r hyn y gallant ei wneud i’w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae pob plentyn yn hapus wrth ddod i'r lleoliad yn y boreau ac yn gyfforddus yng nghwmni oedolion. Mae pob un yn hyderus wrth fynd at yr ymarferwyr i ofyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, maent yn cadw cofnodion manwl o'u hanghenion ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni. Pan fo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad, bydd ymarferwyr yn cydweithio’n glos gyda’r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol eraill er mwyn sicrhau darpariaeth briodol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at oedolion a phlant eraill eu hatgyfnerthu’n gyson ac effeithiol trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae'r trefniadau sefydlu trylwyr ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant newydd yn ymgartrefu'n sydyn yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o bob plentyn ac yn sicrhau eu diogelwch bob amser.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Mae'n llwyddo'n dda i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol da, i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ac i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol neu amheuaeth o gam-drin. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwyddir i greu amgylchedd cartrefol ac ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar ei brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae cyflenwad addas o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r meysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae’r lleoliad yn defnyddio adnoddau'r ardal y tu allan yn dda i hyrwyddo datblygiad corfforol y plant ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ystafell ddysgu o faint digonol ac yn cynnwys yr holl gyfleusterau priodol ar gyfer dysgu plant. Gwna ymarferwyr y defnydd llawnaf posib o'r ystafell er mwyn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Llwydda'r arweinydd i roddi synnwyr cryf o ddiben i waith y lleoliad a chreu ethos lle mae plant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi Mae’n cyfleu disgwyliadau uchel ac wedi sefydlu nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant. Mae'r ddwy ymarferydd yn cydweithio'n agos iawn fel tîm, maent yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae parodrwydd ymarferwyr i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol ac â mentrau newydd yn un o brif gryfderau’r lleoliad.

Mae'r berthynas gyda phlant a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn gydwybodol ac yn gynyddol yn dod yn fwy dylanwadol o ran cynnal safonau uchel a phennu cyfeiriad strategol i waith y lleoliad. Cymer swyddogion y pwyllgor ran weithredol yn nhrefniadau gwerthuso staff ac mae’n dwyn y lleoliad i gyfrif am y safonau a'r ansawdd mae'n eu cyflawni.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant.

Mae adroddiad hunan-arfarnu’r lleoliad o ansawdd da. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o’r wybodaeth ar gyfer llunio cynllun gweithredu a rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a’r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Gan mwyaf, mae ystod addas o weithgareddau partneriaeth sy’n cyfrannu'n briodol at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Prin yw cysylltiadau'r lleoliad gyda’r ysgol gynradd gyfagos ac, o'r herwydd, nid yw'r naill na'r llall yn manteisio'n llawn ar gryfderau ei gilydd. Gwna'r lleoliad ddefnydd llawn o adnoddau’r pentref a'r ardaloedd cyfagos ond nid yw’n manteisio’n llawn ar gyfraniad posibl pobl o’r gymuned leol i rannu eu profiadau gyda’r plant.

Mae'r cydweithio cynhyrchiol sydd rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli staff ac adnoddau. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer cefnogi dysgu plant ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae'r trefniadau cynhwysfawr sydd ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

### Trafod â phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |